CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 3ydd o Fedi 2013
Drefach Village Hall, 7.30pm 3rd of September 2013

Yn bresennol/Present: Cyng. Bill Green, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Lewis Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Geraint Hatcher, Cyng Daff Davies, Cyng Geraint Davies

Ymddiheiriadau/Apologise: Cyng Daniel Evans, Cyng Huw Davies, Cyng Mary Thomas

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyng Gwilym Jenkins ar gyflawni ras 10K ar ran RABI yn Llundain yn ddiweddar.
The Chairman congratulated Cllr Gilwym Jenkins on completing the 10k race on behalf of RABI in London recently.

Danfonwyd carden pen-blwydd i Ada Williams yn 102 oed.
A birthday card was sent to Ada Williams on her 102 birthday.

Llongyfarchwyd Siwan Davies, Llys Deri ar ennill Cadair Tlws yr Ifanc dan 25 oed yn Eisteddfod Llanbed.
Siwan Davies, Llys Deri was congratulated on winning the Chair under 25 years old at Lampeter Eisteddfod.

1	**Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interest** Datgelodd y Cyng Gwilym Jenkins fuddiant personol ym mhwynt 5f. Cllr Gwilym Jenkins declared a personal interest in point 5f.
2	**Cadarnhau'r Cofnodion / Confirm Minutes** Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf yn gywir gan y Cyng. Gwilym Jenkins ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Bill Green. The minutes of the July meeting were proposed as accurate by Cllr Gwilym Jenkins and seconded by Cllr Bill Green.
3. a.	**Materion yn Codi / Matters Arising** Cofgolofn Drefach – Mae'r golau nawr wedi ei atgyweirio. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda dau gwmni a fydd yn dod allan i brisio atgyweirio'r gofgolofn o fewn yr wythnosau nesaf. Mi roedd y Cyng Geraint Davies yn fodlon cwrdd â nhw ar y safle. Unwaith bydd dau bris wedi ei dderbyn mi fydd y Clerc yn medru ymgeisio am y grant. Drefach War Memorial – The light is now working. The Clerk has contacted two expert companies to come out and price the work of repairing the memorial and they will visit the site in the next few weeks. Cllr Geraint Davies agreed to meet them on site. Once the prices have been received the Clerk will apply for the grant.
4 a.	**Gohebiaeth / Correspondance** Ceredigion Cynnes – Hysbysebwyd pawb i gadw gofal am bobl hyn y plwyf ac os oes angen grant arnynt ar gyfer boiler newydd neu insiwleiddio'r tŷ i gysylltu gyda'r Clerc. Warm Ceredigion – All Councillors were made aware to look out for the elderly within the parish and if they need a grant for a new boiler or to insulate the house to contact the Clerk.

b.	TraCC Ymgynghoriad ar Strategaeth Rhwydwaith – 19/9/2013 Canolfan Rheidol 10.00-12.00 – Er gwybodaeth TraCC Consultation – 19/9/2013 Canolfan Rheidol 10.00-12.00 –For Information
c.	Cylchlythyr Bwcabus – Cylchredwyd y llyfryn cwarterol. Bwcabus Newsletter was circulated.
d.	Gwefannau Cynghorau Cymuned – Mae'n ofynnol i bob Cyngor Cymuned rhoi agenda a chofnodion pob pwyllgor yn electroneg ac mae £500 ar gael oddi wrth Llywodraeth Cymru i greu gwefan newydd. Penderfynwyd mynd am y grant a gofyn i gwmni lleol neu'r cyngor sir i greu gwefan. Mae angen gofyn a fydd angen popeth yn ddwyieithog ac am hyfforddiant i'r Clerc i wneud y gwaith. Community Council Website – Every Community Council must provide their agenda and minutes electronically, and in order to help the cost of constructing a website the Welsh Government are giving every Community Council £500 each for the costs. It was decided to apply for the grant and ask a local company or the County Council to create the website. The Clerk needs to ask if everything will be bilingual and for training for the Clerk.
5. a.	**Taliadau a cheisiadau am Arian / Payments and requests for money** Peintio a Thrwsio'r Ciosgs Alan Jones - £730.00 – Cytunwyd i dalu. Painting and Repairing the Kiosks Alan Jones £730.00 – Agreed to pay
b.	Treuliau'r Clerc – £299.00 – Cytunwyd i'w dalu. Clerk's Expenses - £299.00 – Agreed to pay
c.	Placiau ar gyfer y Seddau - £192.00 (10 plac) – Cynigodd y Cyng Lewis Davies ein bod yn archebu'r placiau yma ac eiliwyd gan y Cyng Gwilym Jenkins. Penderfynwyd rhoi'r ysgrifen 'Rhodd gan Cyngor Cymuned Llanwenog 2013 Donated by Llanwenog Community Council 2013' ar y 10 sedd er bod dau ohonynt wedi eu gwneud cyn eleni. Plaques for the seats - £192.00 (10 Plaques) - Cllr Lewis Davies proposed that we order the plaques this was seconded by Cllr Gwilym Jenkins. It was argeed to put the following inscription on them 'Rhodd gan Cyngor Cymuned Llanwenog 2013 Donated by Llanwenog Community Council 2013'.
d.	Gareth Evans Torri Llwybrau - £912.00 – Cytunwyd i dalu Gareth am y gwaith. Gareth Evans Footpaths - £912.00 – Agreed to pay.
e.	Shelter Cymru – Penderfynwyd gan nad yw yn effeithio ar Blwyf Llanwenog i beidio cefnogi'r elusen eleni. Shelter Cymru – It was decided this year as the charity does not effect Llanwenog Parish that no money would be given.
f.	RABI – Cynigwyd rhoi £150 gan y Cyng Geraint Davies ac eiliwyd gan y Cyng Daff Davies gan ei fod yn achos lle mae ffermwyr lleol yn elwa ohono.

	It was proposed to give RABI £150 by Cllr Geraint Davies and seconded by Cllr Daff Davies as it is a charity that supports local farmers.
g.	Cynghrair y Cymunedau – Gofynwyd am arian wrth y mudiad gwirfoddol ar gyfer talu am galendr i bob annedd yn y plwyf gyda busnesau'r plwyf arno, byddai'r gost o brintio yn dod i tua £900 – penderfynwyd gofyn i'r Clerc edrych ar gyfrifon y Cyngor i weld faint o gyfraniad all y Cyngor ei roi. Cynghrair y Cymunedau – The organisation asked for the Community Council to provide money to pay for a calendar for each dwelling in the Parish. The calendar would have a list of businesses within the Parish on it and would be a way of advertising the local economy. The cost of printing would be nearly £900 – the Clerk was asked to look at the Council's accounts to see how much can be donated to the organisation.
6.	**Ceisiadau Cynllunio / Planning Application**
a.	Lofft Bach, Cwrtnewydd – Erection of a first floor extension - NO OBJECTION
b.	Woodlands, Alltyblacca – Insertion of 2 dormer windows on front roof elevation - NO OBJECTION
c.	Plot 4, Church View, Llanwenog – Erection of a dwelling – NO OBEJCTION
d.	Maeshedydd, Blaencwrt – Erection of a Rural Enterprise Dwelling for Alpacas and Pigs – NO OBJECTION
e.	Maeshedydd, Blaencwrt – Erection of a Rural Enterprise Dwelling for Bee Keeping – NO OBJECTION
f.	Brynhebog, Alltyblacca – Demolition of 2 stable blocks and erection of new stable block – APPROVED
g.	Brynrhosyn, Gorsgoch – Removal of flat roof and existing pitched roof and construction of new pitched roof - APPROVED
h.	Tyngrug Isaf, Llanwenog – Erection of a Slurry Store – APPROVED
7.	**Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**
a.	**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf** Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 1af o Hydref 2013 am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on Tuesday, 3rd September 2013 at 7.30pm in Drefach Village Hall.
b.	Derbyniwyd llythr wrth Mr Homes, 17 Bro Teifi yn gofyn am fin, glanhau safle Bws Alltyblaca, arwydd 'Children Playing Slow' ac am fan aros gyferbyn a'r safle bws ar gyfer plant ysgol. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am arwydd ac am fan aros. Ni fyddai'r Cyngor Cymuned yn darparu bin oherwydd y gost ynghlwm a'u waghau, ac mi fyddai'r Clerc yn cysylltu gyda Paul Jones, Gorsgoch i lanhau'r gysgodfan. Mi fyddai'r Clerc yn danfon llythr i Mr Homes i egluro'r

	sefyllfa. A letter was received from Mr Homes, 17 Bro Teifi asking for a bin, cleaning of the Bus Shelter at Alltyblaca, a 'Children Playing Slow' sign and a hardstanding for school children coming off the bus on the opposite side of the road to the Bro Teifi housing site. It was agreed to ask the County Council for a sign and hardstanding. The Community Council will not be providing a bin due to the costs associated with emptying it, and the Clerk will ask Paul Jones, Gorsgoch to clean the shelter. The Clerk will send Mr Homes a letter explaining what was agreed.
c.	Gan fod y meinciau newydd nawr bron yn barod penderfynwyd symud yr hen feinciau pren sydd dal yn medru cael eu defnyddio i'r safleoedd canlynol: - Mynwent Eglwys Llanwenog - Capel y Cwm, Cwmsychpant - Mynwent Capel Brynteg - Cae Chwarae Drefach x 2 - Ysgol Llanwenog - Ysgol Cwrtnewydd - Capel yr Hafod, Gorsgoch Cytunodd y Cynghorwyr helpu Dai Davies, Caerwenog i roi'r meinciau newydd yn eu lle. As the new benches are now nearly ready it was decided to move the new wooden benches which are still useable to the following sites: - Llanwenog Church - Capel y Cwm, Cwmsychpant - Brynteg Chapel - Drefach Playing Field x 2 - Llanwenog School - Cwrtnewydd School - Capel yr Hafod Chapel, Gorgsoch. The Councillors agreed to assist Dai Davies, Caerwenog in putting the new benches in place.